# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR SAFON

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD GWENER, 9 RHAGFYR 2016 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: P M Matthews (Cadeirydd) a fu'n Cynghorydd yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C. Anderson | A C S Colburn | A M Cook |
| P Downing | P Lloyd | K E Marsh |
| H. M. Morris | C L Philpott | T H Rees |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| L Anthony | Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| R Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| Y Lewis | Swyddog Trwyddedu |
| L Thomas | Uwch-gyfreithiwr |
| S Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

### 61 DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y cynghorydd C Anderson – Personol – Cofnod rhif. 66 – Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Gyrrwr Bathodyn Deuol – Perchennog Cerbyd Hacni – PMD – Rwy'n adnabod PMD. Gadawodd y Cynghorydd C Anderson y cyfarfod cyn ystyried yr eitem hon.

### 62 COFNODION:

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Statudol a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2016 yn gofnod cywir.

### 63 DEDDF MEWNFUDO 2016 - NEWIDIADAU I DDEDDFWRIAETH A FFIOEDD TACSIS A CHERBYDAU HURIO PREIFAT.

Cyflwynodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch adroddiad ynghylch goblygiadau Deddf Mewnfudo 2016 (y Ddeddf) i awdurdodau trwyddedu, ymgeiswyr trwyddedau gyrru cerbydau hacni a hurio preifat a cheisio cymeradwyaeth am ffi ar gyfer trwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat chwe misol.

Nodwyd Deddf Mewnfudo 2016; dyletswyddau newydd awdurdodau trwyddedu; goblygiadau a ffioedd arfaethedig gan yr aelodau.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO**'r lefelau ffioedd arfaethedig a amlinellwyd ym mharagraff 6 ar unwaith.

64 **GWAHARDD Y CYHOEDD**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

65 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED YRRU GYFYNGEDIG AR GYFER CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - AB.**

Dywedodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch fod AB wedi gofyn am ohiriad oherwydd salwch.

**PENDERFYNWYD GOHIRIO** ystyried cais AB ar gyfer trwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat tan gyfarfod yn y dyfodol.

66 **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR BATHODYN DEUOL, PERCHENNOG CERBYD HACNI – PMD.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag PMD.

Esboniodd PMD amgylchiadau'r ardystiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** anfon llythyr o rybudd i PMD a pheidio â chymryd camau gweithredu pellach mewn perthynas â thrwydded cerbyd hacni HC6042 PMD.

67 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - CTP.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â CTP.

Esboniodd CTP, ynghyd â JB, amgylchiadau'r ardystiad a'r gollfarn ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO** cais CTP am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

68 **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR BATHODYN DEUOL - JMP.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â JMP.

Esboniodd JMP, ynghyd â CE, amgylchiadau'r gollfarn ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Darllenodd y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r pwyllgor eiriau da mewn perthynas â JMP.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD PEIDIO AG ADNEWYDDU** trwyddedau cerbyd hacni a hurio preifat JMP.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Cyfaddefodd JMP ei fod wedi cyflawni trosedd goryrru arall yn 2012 ac o ganlyniad aeth ar gwrs ymwybyddiaeth cyflymder. Cydnabu'r pwyllgor nad oedd unrhyw ddyletswydd ar JMP i hysbysu'r Is-adran Drwyddedu ei fod wedi mynd ar gwrs ymwybyddiaeth cyflymder. Serch hynny, cyflawnwyd troseddau goryrru pellach ac roedd JMP wedi derbyn llythyrau rhybudd yn hyn o beth. Roedd JMP yn ymwybodol bod yn rhaid hysbysu'r awdurdod am droseddau goryrru ond methodd wneud hynny.

Roedd y pwyllgor yn pryderu am ddiogelwch y cyhoedd wrth deithio oherwydd roedd JMP yn cludo aelodau o'r cyhoedd pan oedd yn goryrru. Roedd yr aelodau yn ofidus ynghylch cyfaddefiad JMP ei fod wedi blino ac a bod rhywbeth wedi tynnu'i sylw ar

adeg un o'r troseddau goryrru a'i fod wedi cyflawni trosedd goryrru ar achlysur arall er gwaethaf amodau gyrru gwael.

Cydnabu'r pwyllgor ei fod yn gweithredu y tu allan i'r canllawiau ond roedd ganddynt bryderon difrifol nad oedd JMP yn gweithredu'n groes i'w gymeriad ac y byddai'r troseddau yn cael eu hailadrodd.

## 69 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR BATHODYN DEUOL - APB.

Nododd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch fod APB wedi peidio â dod i'r cyfarfod. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gais am ohiriad wedi'i dderbyn gan APB.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag APB.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD:**

**1.** Y dylid ymdrin â'r mater yn absenoldeb APB; ac y
**2.** Dylid **DIDDYMU**'r drwydded cerbyd hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Peidiodd APB â dod i'r cyfarfod ac felly nid oedd yn gallu bodloni'r aelodau ei fod yn berson addas a chymwys.

Nid oedd y pwyllgor yn argyhoeddedig fod APB yn gweithredu'n groes i'w gymeriad ac na fyddai diogelwch y cyhoedd yn cael ei beryglu o gofio cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.33 am

**CADEIRYDD**